



Department  
for Environment  
Food & Rural Affairs



Scottish  
Government  
Riaghaltas  
na h-Alba



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Dyddiad: 16/10/23

Annwyl sefydliad,

## CYNGOR I FILFEDDYGON AR FRWSELA CANIS

Rydym yn ysgrifennu atoch i amlinellu ein hargymhellion mewn perthynas â *Brwsela canis*, yr ydym yn cydnabod ei fod yn broblem sy'n dod i'r amlwg i anifeiliaid anwes yn y DU, perchnogion ac, wrth gwrs, y proffesiwn milfeddygol. Mae'r camau gweithredu a argymhellir yn y llythyr hwn yn rhai cynghorol a gwirfoddol, hyd nes y caiff rhagor o dystiolaeth ei chasglu ac asesiadau eu cynnal i lywio newidiadau polisi priodol.

Clefyd heintus yw brwselosis cŵn a achosir yn bennaf gan y bacteria, *Brwsela canis*. Yn hanesyddol, mae'r DU wedi bod yn rhydd o *Frwsela canis*, ond rydym yn gweld niferoedd cynyddol o achosion sy'n gysylltiedig â mewnfario cŵn. Pathogen milheintiol yw *Brwsela canis* ac er bod nifer yr achosion o'r haint a gofnodwyd mewn pobl yn brin, mae'n debygol y gall rhai grwpiau o bobl, fel plant dan 5 oed, pobl oeddrannus a phobl sydd â systemau imiwnedd gwan, brofi symptomau mwy difrifol os cânt eu heintio.

Gall pobl sy'n delio â chŵn wedi'u mewnfario o darddiad anhysbys neu gŵn bridio a all ddod i gysylltiad â chŵn wedi'u mewnfario, wynebu mwy o risg o *Frwsela canis*. Cafodd ein hasesiad diweddaraf o'r risgiau sy'n gysylltiedig â *Brwsela canis* ei gyhoeddi gan y grŵp Goruchwyllo Heintiau Pobl ac Anifeiliaid a Risg (HAIRS) ac mae ar gael yn [Human Animal Infections and Risk Surveillance group \(HAIRS\) - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/groups/human-animal-infections-and-risk-surveillance). Mae'r asesiad yn cadarnhau er bod y risg i'r boblogaeth ehangach yn isel iawn, mae'r tebygolrwydd o amlygiad a chanlyniadau yn cynyddu mewn achosion lle mae cyswllt agos â chi sydd wedi'i heintio. Byddwn yn parhau i weithio gydag Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA) ac yn rhoi rhagor o ddiweddariadau fel y bo'n briodol.

Mae'n bosibl na fydd haint mewn cŵn yn arwain at arwyddion clinigol amlwg neu gall achosi amrywiaeth o arwyddion clinigol o ddifrifoldeb amrywiol. Gall y rhain gynnwys arwyddion atgenhedlol fel erthylu, anffrwythlondeb a chŵn bach gwan, discosbondylitis, cloffni, gwendid yn y cyhyrau, lymffadenopathi ac arwyddion amhenodol fel syrthni a cholli pwysau.

Nid yw clefyd mewn cŵn sydd wedi'u heintio â *Brwsela canis* yn hysbysadwy ond yn sgil diwygiadau i Orchymyn Milheintiau 1989 a wnaed yn 2021, mae'n rhaid rhoi gwybod os canfyddir bod y pathogen yn bresennol. Drwy wneud hynny, rydym wedi gallu monitro nifer yr achosion dan amheuaeth er mwyn gweld a oes tystiolaeth o broblem ehangach o drosglwyddiad parhaus ym mhoblogaeth cŵn y DU, ac rydym yn hyderus mai problem sy'n gysylltiedig â chŵn wedi'u mewnfario a ddefnyddir at ddibenion bridio yw hon o hyd ar y cyfan.

Er mwyn helpu i wella dealltwriaeth o'r clefyd ymhlith gweithwyr milfeddygol proffesiynol, mae'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) wedi creu Taflen Wybodaeth Gryno [Canine Brucellosis: Summary Information Sheet \(defra.gov.uk\)](https://www.defra.gov.uk/canine-brucellosis-summary-information-sheet) sy'n cynnwys rhagor o wybodaeth, gan gynnwys sut i reoli'r haint. Mae rhai sefydliadau milfeddygol hefyd wedi llunio canllawiau ar y clefyd hwn.

**Diagnosis:** rydym yn argymhell y dylech gymryd samplau o'r cŵn yn eich gofal i'w profi, pan fydd arwyddion clinigol amlwg a phenodol sy'n codi amheuan o frwselosis cŵn, yn enwedig y rhai sydd â hanes o gael eu mewnfario neu sydd wedi bod mewn cysylltiad agos â chŵn wedi'u mewnfario.

I gael gwybodaeth fwy penodol am y profion a argymhellir, darllenwch ein dogfen atodedig sy'n cynnwys cwestiynau cyffredin. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am sut i gyflwyno samplau i labordy APHA i'w profi, gan gynnwys samplau o dramor, yn ogystal â chostau profion a gwerthoedd penodolrwydd a sensitifrwydd diagnostig.

Ein Labordy Cyfeirio Cenedlaethol ar gyfer *Brwsela canis* yw labordy APHA yn Weybridge. **Er mwyn canfod haint *Brwsela canis*, rydym yn argymhell y dylid gwneud dau brawf serolegol, sef *Brwsela canis* SAT (TC1032) a *Brwsela canis* iELISA (TC0116).** Os bydd y naill brawf neu'r llall yn bositif, yna ystyrir bod y sampl yn serolegol bositif. Os bydd y ddau brawf yn negatif, yna ystyrir bod y sampl yn serolegol negatif. Nid yw gwerth diagnostig rhai profion eraill fel profion llif unffordd wedi'i ddilysu eto gan y Labordy Cyfeirio Cenedlaethol (APHA Weybridge).

**Triniaeth:** yn anffodus, nid oes protocol triniaeth cyson effeithiol ar gyfer brwselosis cŵn. Yr unig ffordd o ddileu'r risg o drosglwyddo brwselosis cŵn yn llwyr yw drwy ewthaneiddio'r anifail sydd wedi'i heintio. Lle nad yw perchnogion yn dymuno ewthaneiddio, rydym yn argymhell y dylai camau lleihau risg gael eu cymryd ar gyfer anifeiliaid positif er mwyn lliniaru'r risg o ledaenu'r haint i anifeiliaid eraill, perchnogion a staff milfeddygol sy'n trin a thrafod yr anifeiliaid hyn.

- Lleihau cyswllt anifeiliaid positif â chŵn eraill a phobl i'r eithaf er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y caiff pobl ac anifeiliaid eraill eu hamlygu i lefelau uchel o facteria.
- Osgoi bridio anifeiliaid positif ac ystyried eu niwtro.
- Dylai personél milfeddygol ddefnyddio cyfarpar diogelu personol effeithiol wrth gyffwrdd neu drin cŵn wedi'u heintio.

- Rhaid hefyd ystyried triniaeth wrthficrobaidd, yn enwedig cyn llawdriniaeth, gan nodi y gall triniaeth wrthfriotig leihau'r risg o ledaenu'r haint ond ni fydd yn clirio haint *Brwsela canis*.


Byddwn yn ysgrifennu at ddarpar berchnogion cŵn a sefydliadau sy'n ystyried mewnforio cŵn bach a chŵn yn eu llawn dwf, neu brynu ci a fewnforiwyd yn flaenorol yn ogystal â bridwyr cŵn, i'w cynghori i ofyn am gyngor milfeddygol ac ystyried cynnal profion ar gŵn cyn eu bridio a chyn penderfynu eu mewnforio neu'u hailgartrefu yn y DU. Byddem yn ddiolchgar iawn pe gallech hefyd gynghori unrhyw ddarpar fridiwr, sefydliad ailgartrefu neu unigolion i sgrinio anifeiliaid am haint *Brwsela Canis* cyn penderfynu eu mewnforio neu'u hailgartrefu yn y DU.

Diolch am eich cymorth a'ch cefnogaeth barhaus gyda'r mater hwn.

Yn gywir,



**Professor Christine Middlemiss CB**  
**UK Chief Veterinary Officer**



SHEILA VOAS

**Chief Veterinary Officer (Scotland)**



Meddyg Richard Irvine  
MRCVS  
Prif Swyddog Milfeddygol  
Llywodraeth Cymru

Dr Richard Irvine MRCVS  
Chief Veterinary Officer  
Welsh Government